



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Yr Hendy  
Heol Iscoed  
Yr Hendy  
Pontarddulais  
Sir Gaerfyrddin  
SA4 0XD**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Yr Hendy

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Yr Hendy ym mhentref Yr Hendy ger Llanelli, Sir Gaerfyrddin. Ar hyn o bryd, mae 164 o ddisgyblion ar y gofrestr, rhwng tair ac un ar ddeg oed, gan gynnwys pump o blant meithrin sy'n mynychu'n amser llawn. Mae saith dosbarth, y mae pob un ohonynt yn ddosbarth oedran cymysg. Mae'r ysgol yn dapraru addysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg mewn dwy ffrwd iaith ar wahân. Mae pedwar dosbarth yn y ffrwd Gymraeg a thri dosbarth yn y ffrwd Saesneg. Mae disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn dysgu Gymraeg fel ail iaith.

Mae tua 15% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 16% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef tua 21%. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Dechreuodd y pennaeth ar ei swydd ym Medi 2014. Cynhaliwyd yr arolygiad blaenorol o'r ysgol ym mis Chwefror 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.  
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

## Crynodeb

Mae pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a bod pobl yn gwranddo arnynt yn Ysgol yr Hendy. Mae ymddygiad yn eithriadol o dda a cheir ymdrech barhaus â mentrau gwrthfwlio llwyddiannus iawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol o'u man cychwyn.

Mae'r ysgol yn gofalu'n eithriadol o dda am ei holl ddisgyblion. Mae ethos cydlynol o gwmpas yr ysgol sy'n cwmpasu rhieni, disgyblion, staff a llywodraethwyr fel ei gilydd. Mae'r perthnasoedd gweithio cryf iawn rhwng yr holl ddisgyblion a staff yn sicrhau bod agwedd gadarnhaol at ddysgu ar draws yr ysgol. Disgwylir i bawb wneud ei orau. At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu'n dda, ac mae athrawon yn aml yn addasu eu cynllunio'n fedrus i ddarparu cyfleoedd dysgu ar sail diddordebau a chwilfrydedd disgyblion.

Mae'r ysgol yn elwa ar arweinyddiaeth gref. Sefydlwyd gweledigaeth glir a chadarn ar gyfer yr ysgol sy'n sicrhau bod lles pob un o'r plant a'r staff yn ganolog i bopeth a wna. Rhennir y weledigaeth yn llwyddiannus ar draws cymuned yr ysgol gyfan, ac mae'n arwain at ddarpariaeth a deilliannau gwell ar gyfer yr holl ddisgyblion.

<b>Maes arolygu</b>	<b>Barn</b>
<b>Safonau</b>	<b>Da</b>
<b>Lles ac agweddau at ddysgu</b>	<b>Da</b>
<b>Addysgu a phrofiadau dysgu</b>	<b>Da</b>
<b>Gofal, cymorth ac arweiniad</b>	<b>Rhagorol</b>
<b>Arweinyddiaeth a rheolaeth</b>	<b>Da</b>

## **Argymhellion**

- A1 Sicrhau bod yr holl weithgareddau yn cynnig her briodol er mwyn datblygu medrau disgyblion
- A2 Gwella medrau ysgrifennu disgyblion ar draws y cwricwlwm
- A3 Mireinio prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant i gael ffocws cliriach ar feysydd penodol i'w datblygu

## **Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â strategaethau gwrthfwlio, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Safonau: Da

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd sy'n cyd-fynd â'r rheiny a ddisgwylir gan ddisgyblion o oedran tebyg, neu'n is. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol o'u man cychwyn. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau unigol.

Mae disgyblion yn y ffrydiau Cymraeg a Saesneg yn cyflawni safonau tebyg ac yn gwneud cynnydd tebyg trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos medrau gwrando eithriadol o dda. Maent yn gwrando'n dda yn y dosbarth ac yn dangos llawer o barch at ei gilydd wrth drafod eu gwaith neu wrando ar safbwyntiau ei gilydd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn mynegi eu barn yn hyderus a chllir. Er enghraifft, maent yn siarad yn frwdfrydig am yr ysgol a'r hyn y mae'n ei olygu iddynt.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos mwynhad wrth ddarllen ac maent yn awyddus i ddarllen ar goedd i oedolion. Gallant ddatrys geiriau anghyfarwydd yn briodol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol, er enghraifft i benderfynu p'un a oes ganddynt y rhinweddau i fod yn ffrind da ai peidio. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau darllen cryf ac maent yn trafod y llyfrau a ddarllenant yn frwdfrydig. Maent yn atgyfnerthu'r medrau hyn yn dda wrth weithio ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ymchwilio i wybodaeth am Neil Armstrong.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus. Er enghraifft, yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, gallant adnabod eu henw, a'i ysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gallu i ffurfio llythrennau'n gywir, er enghraifft wrth ysgrifennu gan ddefnyddio sialc ar y llawr. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu brawddegau diddorol, er enghraifft wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau ar sut i aros yn ddiogel ar noson tân gwyllt.

Wrth ysgrifennu, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn defnyddio atalnodi'n gywir ac yn gwneud cynigion rhesymol i sillafu geiriau anghyfarwydd. Gallant ysgrifennu'n gymwys at ystod eang o ddibenion a gallant ddefnyddio paragraffau'n dda. Mae disgyblion mwy abl yn cynhyrchu gwaith ysgrifennu o ansawdd da sy'n fywiog ac yn ennyn diddordeb y darlennydd yn dda, er enghraifft wrth ysgrifennu dyddiadur fel y cymeriad Danny Champion of the World. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion bob amser yn defnyddio eu medrau ysgrifennu i'r un safon ar draws y cwricwlwm.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu gwybodaeth gadarn am gysyniadau mathemategol wrth iddynt symud trwy'r ysgol fel eu bod yn fathemategwyr hyderus erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ennill dealltwriaeth gref o rif, a gallant gymhwyso eu medrau mathemategol at ddibenion ehangach. Er enghraifft, gall llawer o ddisgyblion ym

Mlynyddoedd 1 a 2 gofnodi gwybodaeth am faint o anrhegion y gall Siôn Corn eu lapio mewn diwrnod ar daenlen, a gwneud casgliadau synhwyrol o'r graffiau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn hyderus o ran cymhwyso eu medrau mathemategol er mwyn datrys problemau bywyd go iawn mwy cymhleth, er enghraifft cyfrifo pa gwmni bysiau i'w logi ar gyfer eu taith i Lundain, ar sail ystod o feini prawf. Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda ar draws y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau cryf mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Yn y cyfnod sylfaen, defnyddiant feddalwedd cyhoeddi i gyflwyno gwahanol agweddau ar eu gwaith mewn ffyrdd lliwgar a deniadol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion fewngofnodi ar HWB yn annibynnol i arbed ac adalw eu gwaith yn llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio TGCh i gyflwyno eu gwaith mewn ffyrdd diddorol. Maent yn fedrus yn creu codau QR i amlygu ac esbonio gwaith y maent wedi'i wneud, a defnyddiant gronfeydd data a thaenlenni yn effeithiol. Er enghraifft, gall disgyblion ym Mlynyddoedd 3 a 4 greu cronfeydd data o ymladdwyr hanesyddol a gall disgyblion Blwyddyn 5 a 6 ddefnyddio fformiwlâu yn eu taenlenni i drosi rwpis Indiaidd yn bunnoedd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn meddu ar ddealltwriaeth dda iawn o'r Gymraeg. Maent yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau a cheisiadau a roddir yn Gymraeg, ac mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn briodol. Gall y rhan fwyaf ohonynt ddarllen y gwaith y maent yn ei gynhyrchu yn Gymraeg yn dda, a gall y disgyblion mwy abl ysgrifennu Cymraeg yn annibynnol i safon uchel.

Mae gan bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o fanteision bod yn ddwyieithog, ac maent yn gweld y Gymraeg fel iaith fyw a defnyddiol.

### **Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae'r perthnasoedd gweithio cryf iawn rhwng pob un o'r disgyblion a'r staff yn nodwedd ragorol yng ngwaith yr ysgol ac maent yn darparu'r sylfaen ar gyfer ethos gofalgaf a chefnogol yr ysgol. Mae gan ddisgyblion lefelau eithriadol o uchel o ymddiriedaeth yn y staff ac maent yn credu'n gryf y byddant bob amser yn gwneud eu gorau drostynt. O ganlyniad, mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu, maent wedi'u cymell i lwyddo ac yn dangos ymddygiad eithriadol o dda trwy gydol y dydd.

Dywed bron pob un o'r disgyblion fod yr ysgol yn rhydd rhag bwlio a'u bod yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos parch eithriadol o dda at gyfraniadau ei gilydd ac mae ganddynt y medrau i ddelio ag unrhyw achosion o anghytuno yn gyfeillgar ac yn aeddfed. Enghraifft hynod effeithiol o hyn yw'r ffordd y mae grŵp o ddisgyblion hŷn wedi datblygu a rhannu polisi gwrthfwlio'r ysgol trwy greu fideo. Maent wedi rhannu eu negeseuon yn lleol ac yn genedlaethol. Maent hefyd yn dangos parch at oedolion ac ymwelwyr, yn agor drysau iddynt ac yn dangos balchder wrth siarad am eu hysgol.

Mae pob un o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn mynegi eu teimladau bob bore ar raglen gyfrifiadurol ac yn penderfynu gyda phwy maent eisiau rhannu'r wybodaeth hon. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwerthfawrogi'r ateb personol a

gânt a'r cyfrinachedd a gynigir gan y system hon. Mae gan bob un o'r disgyblion ymwybyddiaeth gynhwysfawr o sut i aros yn ddiogel ar y rhyngwrwd. Mae disgyblion hŷn yn y grŵp technoleg disgyblion, sef 'grŵp.com', yn cynnig hyfforddiant i ddisgyblion y cyfnod sylfaen atgyfnerthu'r neges hon ymhellach.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod sut i'w cadw eu hunain yn heini ac iach. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau corfforol fel rhan o'u cwricwlwm ac fel gweithgareddau allgyrsiol. Mae gan bron pob un o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o'r hyn sy'n gwneud diet iach ac maent yn gwybod sut i baratoi blwch cinio iach.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith, yn dyfalbarhau â'u tasgau ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig yn llwyddiannus. Maent yn gweithio'n dda mewn grwpiau a pharau ac yn deall sut i osgoi pethau sy'n tynnu sylw er mwyn cwblhau'r dasg dan sylw. Mae gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i weithio'n annibynnol yn datblygu'n effeithiol. Er enghraifft, dewisodd disgyblion ar ddechrau'r cyfnod sylfaen eu hoffer yn synhwyrol i ryddhau cymeriadau a oedd wedi'u rhewi mewn iâ.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd a roddir iddynt chwarae rhan yn eu cymuned, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn eisteddfodau, digwyddiadau codi arian, ac yn fwyaf diweddar, cystadleuaeth 'Carol yr Ŵyl'.

Mae presenoldeb cyffredinol yr ysgol dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi ei gosod islaw'r ganolrif o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae'r ymdrech barhaus i wella presenoldeb wedi cael effaith gadarnhaol ar leihau nifer yr absenoldebau parhaus dros gyfnod. Bu gostyngiad dros yr un cyfnod hefyd yn y bwch rhwng cyfraddau absenoldeb disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, a'r rheiny nad ydynt.

### **Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae dull ac ansawdd cyson ar draws y ffrydiau Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd. Mae bron pob un o'r athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu cyffrous a difyr sy'n cymell ac yn ennyn brwdfrydedd disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn mabwysiadu dull hyblyg o gynllunio ac yn ystyried diddordebau ac awgrymiadau disgyblion yn dda. Er enghraifft, rhoddwyd tasgau llythrennedd a rhifedd i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn seiliedig ar aelodau seneddol benywaidd o Gymru er mwyn ymateb i ddisgybl a ddywedodd mai *suffragette* oedd ei harwres. Mae cyflymdra'r dysgu'n dda bron ym mhob dosbarth. Mae gan bob un o'r staff ddisgwyliaid uchel o ymddygiad disgyblion, ac o ganlyniad, cynhelir gwersi mewn modd digynnwrf a pharchus. Mae gan bob un o'r athrawon berthynas weithio gref iawn gyda disgyblion ac maent yn ystyried anghenion unigolion yn dda. Maent yn cynnig canmoliaeth adeiladol ar adegau priodol, ac o ganlyniad, yn creu ystafelloedd dosbarth ble mae disgyblion yn teimlo'n hyderus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac nid ydynt yn poeni am wneud camgymeriadau yn eu dysgu. Ym mhob dosbarth, mae'r cynorthwywyr cymorth dysgu yn helpu'r athrawon yn dda ac mae pob un o'r oedolion yn holi disgyblion yn fedrus er mwyn asesu eu dealltwriaeth a herio eu syniadau.

Mae athrawon yn cynnig adborth ysgrifenedig pwrpasol ac effeithlon i ddisgyblion. Mae eu defnydd o dechnegau asesu ar gyfer dysgu wedi gwella dros gyfnod, a gall disgyblion nodi'r camau nesaf yn y dysgu o farcio'r athrawon. Rhoddir cyfleoedd

addas i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a thrafod eu gwaith gyda phartner. Mae athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn gywir ac yn gwneud defnydd da o'u hasesiadau i osod targedau i ddisgyblion wella mewn rhifedd a llythrennedd. Mae disgyblion yn gwybod eu targedau'n dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn gwella. Mae athrawon yn cynllunio digonedd o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TG ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw pob gweithgaredd yn darparu digon o her i ddatblygu medrau disgyblion ar y lefel briodol.

Mae'r ysgol yn ystyried egwyddorion ac ethos y cyfnod sylfaen yn dda, gan sicrhau cyfleoedd priodol i bob disgybl ymgymryd â dysgu gweithredol. Mae staff yn gwneud defnydd priodol o'r ardal yn yr awyr agored er mwyn datblygu medrau disgyblion. Ar y cyfan, mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion a rhai wedi'u harwain gan ddisgyblion, er enghraifft pan roddwyd cyfle i ddisgyblion lapio, addurno a labelu anrhegion Nadolig yn yr ardal chwarae rôl.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau gwerthfawr ar gyfer disgyblion sy'n gwella'u dysgu ac mae athrawon bob amser yn fodlon ystyried addasu'r gweithgareddau yn unol â diddordeb disgyblion. Er enghraifft, wrth astudio testun ar y 1960au, dangosodd disgyblion ddiddordeb mawr yn llofruddiad John F. Kennedy. Addasodd yr athro'r cynllunio a gosododd nifer o dasgau llythrennedd a rhifedd yn seiliedig ar y digwyddiad, a threfnodd fod disgyblion yn anfon negeseuon e-bost at lygad-dystion i'r llofruddiad. Fe wnaeth yr ymatebion a gawsant ennyn diddordeb gwirioneddol yn eu dysgu ar draws ystod gyfan o bynciau.

Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn dysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru, er enghraifft trwy ymweliadau â Chastell Penfro a Dan yr Ogor, a thrwy eu hastudiaeth o Aber-fan. Rhoddir cyfleoedd da i ddisgyblion gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ac mae côr yr ysgol yn amlwg yn y gymuned leol pan fyddant yn perfformio mewn gwahanol ddigwyddiadau, er enghraifft ger coeden Nadolig y pentref, a thrwy eu llwyddiant mewn cystadleuaeth canu carolau a ddarlledwyd ar y teledu.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn gadarn. Caiff disgyblion yn y ffrwd Saesneg ddigon o gyfleoedd i gael eu trochi yn y Gymraeg a'i threftadaeth. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu medrau Cymraeg.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer lles, datblygiad cymdeithasol a diwylliannol yr holl ddisgyblion yn rhagorol. Mae cynllunio'r addysgu a'r profiadau dysgu, o amgylch Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn galluogi disgyblion i ddeall eu hawliau a sut i fod yn ddinesydd da, teg a chyfiawn. Enghraifft hynod effeithiol o hyn yw'r modd y gwnaeth y disgyblion freichledi i'w gwerthu ar ddiwrnod chwaraeon. Yn hytrach na chadw'r arian tuag at brosiect adnewyddu maes chwarae'r cyngor ysgol, penderfynodd disgyblion anfon yr arian a godwyd tuag at noddi plentyn yn Affrica, gan alluogi'r plentyn i fynd i'r ysgol. Fe wnaeth y myfyriwr o Affrica a noddwyd gan y disgyblion ysgrifennu llythyr o ddiolch. O ganlyniad i glywed cynnwys y llythyr mewn gwasanaeth ysgol, gwnaed cyfraniad hynod effeithiol at ddealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o'u cyfrifoldeb fel dinasyddion byd-eang.

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, ddiogel a chynhwysol sy'n rhoi pwyslais eithriadol o dda ar rôl a chyfraniad pob unigolyn at deulu'r ysgol. Enghraifft bwerus yw'r ymagwedd gynhwysol at greu cymunedau wedi'u harwain gan fyfyrwyr. Mae grwpiau



o ddysgwyr o bob oedran a gallu yn dod at ei gilydd ar y cyngor ysgol, sef 'Cymodwyr Amser Chwarae' ('Playtime Peacemakers'), 'group.com', y cyngor eco a'r 'Criw Cymraeg'. Mae'r grwpiau hyn yn darparu cynrychiolaeth ragorol o 'lais y disgybl' ac maent yn hanfodol i sicrhau bod pob disgybl yn mwynhau ei amser yn Ysgol yr Hendy. Er enghraifft, yn dilyn hyfforddiant, mae'r 'Cymodwyr Amser Chwarae' yn arwain gemau a gweithgareddau sy'n cynnwys pob disgybl. Mae hyn yn cryfhau synnwyr y disgyblion o les ac fe gaiff effaith gadarnhaol ar ymddygiad amser chwarae.

Mae gwaith rhagorol yr ysgol ar fentrau gwrthfwlio wedi ymgorffori diwylliant o gydraddoldeb, goddefgarwch a pharch ar draws yr ysgol. Mae rhieni a'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi croesawu'r dull hynod effeithiol, sy'n seiliedig ar werthoedd, a ddefnyddir i ddileu bwlio yn yr ysgol. Mae staff yn atgyfnerthu'r gwerthoedd hyn yn eithriadol o dda ac mae disgyblion yn eu cymhwyso'n gyson yn eu bywydau bob dydd. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir. Mae'r gweithgareddau hyn yn datblygu medrau a galluoedd bron pob un o'r disgyblion i ddelio'n effeithiol iawn â gwahanol sefyllfaoedd, cydymdeimlo â phobl eraill a datrys materion yn aeddfed.

Mae staff yn defnyddio systemau olrhain yr ysgol yn effeithlon i fonitro cynnydd yr holl ddisgyblion. Mae hyn yn eu helpu i nodi unrhyw ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn gyflym. Mae gan ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau addysg unigol effeithiol sy'n benodol a mesuradwy. Mae disgyblion a rhieni yn cyfrannu'n bwrpasol at osod ac adolygu targedau.

Mae'r ysgol yn meithrin cysylltiadau cryf iawn gyda rhieni ac mae'n gwneud cynnydd buddiol o ran datblygu gallu rhieni i gynorthwyo eu plant eu hunain. Er enghraifft, mae rhieni wedi mynychu sesiynau ar sut i holi eu plentyn wrth wrando arno'n darllen. Hefyd, ymatebodd grŵp o rieni'n effeithiol i fenter yr ysgol yn y llyfryn cymunedol i ddatblygu rhifedd gwerth chweil, er mwyn cynorthwyo rhieni i ddatblygu eu medrau rhifedd eu hunain a medrau rhifedd eu plentyn y tu allan i'r ysgol. Mae gan y rhan fwyaf o rieni ddealltwriaeth helaeth o ffigurau presenoldeb disgyblion yr ysgol ac maent yn hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd gyda'u plant. Caiff rhieni eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn trwy gydol y flwyddyn, gan ddechrau ag adroddiadau targed unigol yn nhymor yr hydref, adolygiadau yn ystod nosweithiau rhieni ac adroddiadau addysgiadol i ddisgyblion ar ddiwedd blwyddyn.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion. Ceir ystod eang o chwaraeon, gemau amser chwarae strwythuredig a phrofiadau allgyrsiol sy'n hyrwyddo iechyd a ffitrwydd yn dda. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth wedi arwain taith hynod effeithiol tuag at wella, gyda lles yr holl ddisgyblion a'r staff yn ganolog i'r broses. Mae hi wedi sefydlu gweledigaeth glir a chadarn ar gyfer yr ysgol. Caiff ei chynorthwyo'n fedrus gan ddirprwy ac uwch dîm arweinyddiaeth cydwybodol. Gyda'i gilydd, maent yn rhannu'r weledigaeth hon ar draws cymuned yr ysgol gyfan ac yn creu ethos o waith tîm agos sy'n canolbwyntio'n bwrpasol ar wella darpariaeth a deilliannau ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Mae gan bob un o'r staff swydd ddisgrifiadau clir ac maent yn cyflawni eu rolau yn ddiwyd. Mae cyfarfodydd uwch arweinwyr, cyfarfodydd staff a chyfarfodydd adrannol yn cynnwys ffocws clir ar ddatblygu blaenoriaethau'r ysgol. Mae hyn wedi arwain at welliannau clir mewn agweddau ar ddarpariaeth a safonau. Er enghraifft, mae arweinydd y cyfnod sylfaen wedi gweithio'n llwyddiannus gyda phob aelod o staff yn y cyfnod allweddol i sefydlu egwyddorion cadarn yn y cyfnod sylfaen yn seiliedig ar ddysgu gweithredol a dysgu trwy brofiad.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithgareddau hunanarfarnu cynhwysfawr sy'n nodi cryfderau'r ysgol a'r rhan fwyaf o feysydd i'w gwella yn effeithiol. Mae gan bob aelod o staff rôl fuddiol yn y gweithgareddau hyn. Er enghraifft, mae aelodau o staff yn cymryd rhan mewn craffu ar waith i nodi meysydd i'w gwella, fel ansawdd yr adborth i ddisgyblion. Fe wnaethant wahodd disgyblion i gyfarfodydd staff i weithio gyda staff i wella'r broses hon. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth well o'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i wella'u gwaith. Er bod adroddiadau sy'n deillio o weithgareddau monitro yn cydnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn briodol ar y cyfan, maent yn aml yn rhy hir a rhy ddisgrifiadol, ac nid ydynt bob amser yn cynnwys ffocws digon craff ar arfarnu meysydd penodol o ddarpariaeth neu ddeilliannau disgyblion.

Mae arweinwyr yn cynllunio'n dda i wella blaenoriaethau a nodwyd o weithgareddau hunanarfarnu. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn nodi camau gweithredu clir ar gyfer gwella, ynghyd â chyfleoedd effeithiol i ddatblygu staff yn broffesiynol. Mae'r rhain wedi'u cysylltu'n agos â gweithdrefnau rheoli perfformiad. Mae arweinwyr yn mesur cynnydd yn erbyn blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol yn llwyddiannus, gan ddefnyddio meini prawf llwyddiant priodol. Maent wedi defnyddio'r prosesau hyn yn gadarn i symud yr ysgol ymlaen. Er enghraifft, mae'r ffocws ar ddatblygu medrau rhifedd disgyblion wedi cael effaith gadarnhaol ar allu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddefnyddio eu medrau rhifedd i ddatrys problemau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys gormod o dargedau, sy'n golygu nad yw'r prif flaenoriaethau bob amser yn glir ar gyfer yr holl randdeiliaid.

Mae arweinwyr yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent wedi cwmpasu pedwar diben y cwricwlwm newydd yn yr weledigaeth a chynllunio'r cwricwlwm ar gyfer yr ysgol, gan ddefnyddio mentrau fel 'Heriau Hendy' i ddatblygu elfennau o addysgeg effeithiol y cyfnod sylfaen yng nghyfnod allweddol 2. Mae gan arweinwyr gynllun strategol clir ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar draws y ddwy ffrwd ac maent yn defnyddio hyfforddiant fel cyrsiau sabothol i wella medrau iaith y staff. Mae'r ffocws clir ar ddatblygu'r siarter iaith yn cael effaith gadarnhaol hefyd ar ddefnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol o gwmpas yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol wedi cefnogi'r ysgol yn gydwybodol trwy'r daith tuag at wella. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella ac maent yn defnyddio gwybodaeth o weithgareddau amrywiol, fel teithiau dysgu a dadansoddi data, i herio arweinwyr yn briodol.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau i gyflwyno cwricwlwm ysgogol i ddisgyblion. Er bod heriau yn gysylltiedig â'r adeilad, mae arweinwyr yn gwneud y defnydd gorau o'r holl ardaloedd i ddarparu amgylchedd dysgu pwrpasol ar gyfer disgyblion. Mae'r pennaeth yn hynod ragweithiol o ran darparu grantiau a

chyllid ychwanegol i wella'r ysgol. Mae hyn wedi galluogi arweinwyr i brynu adnoddau TGCh newydd a datblygu amgylchedd cyffrous yn yr awyr agored i ddatblygu medrau disgyblion. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion i sicrhau bod disgyblion sy'n agored i niwed yn cael amrywiaeth o brofiadau newydd. Mae gweithdy drama, er enghraifft, wedi gwella hyder a medrau llafaredd grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae arweinwyr yn teilwra'r defnydd o'r grant hwn yn bwrpasol ar gyfer anghenion unigol disgyblion penodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

<b>Rhagorol</b>	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
<b>Da</b>	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
<b>Digonol ac angen gwelliant</b>	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
<b>Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys</b>	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor, Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: [www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/02/2018